


# Gweithgareddau Ysgrifennu Dyddiadur



Yma ceir nifer o weithgareddau sy'n rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau ysgrifennu eich disgyblion gan ganolbwyntio'n benodol ar roi profiadau iddynt i fod yn greadigol.  
Mae yma nifer o ffurfiau a gweithgareddau gwahanol i'w dewis a'u dethol yn ôl anghenion eich disgyblion.  
Cofiwch fod yna gyflwyniad Pwerbwynt ar gael i gyd-fynd â'r gwaith.


**Gwefan Ddefnyddiol:**

<http://www.bbc.co.uk/cymru/tacteg/cymraeg/>

# CYMRAEG yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

## Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio Ysgrifennu

## Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio



### Ysgrifennu

#### Sgiliau

#### Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir gan addasu eu harddull yn unol â'r gynulleidfa a'r pwrpas
2. cysylltu brawddegau a chymalau yn ddealladwy ac yn drefnus; defnyddio cystrawennau amrywiol Cymraeg a pharagraffu'n effeithiol
3. defnyddio atalnodi i gyfleu ystyr priodol gan gynnwys:
  - atalnod
  - atalnod llawn
  - gofynnod
  - dyfynnod
  - ebychnod
  - collnod
  - acen grom
  - pwyntiau bwled
4. dewis a defnyddio geirfa briodol, datblygu iaith goeth, rywiog a'i defnyddio i greu effeithiau
5. meithrin cywirdeb trwy:
  - ddefnyddio ffurfiau berfol
  - negyddu brawddegau
  - defnyddio arddodiaid

- treiglo
- defnyddio cenedl enwau
- gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg
- gwahaniaethu rhwng 'i', 'u' ac 'y'
- osgoi geiriau, ymadroddion a phatrymau Saesneg a Seisnig diangen

6. defnyddio ystod o strategaethau i'w galluogi i sillafu'n gywir; gwirio sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh 

7. defnyddio geirfa a therminoleg briodol wrth ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill

8. drafftio a gwella eu gwaith gan ddefnyddio TGCh fel bo'r angen i:
  - baratoi a chynllunio
  - drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith
  - prawf-ddarllen
  - paratoi copi terfynol

9. cyflwyno'u gwaith yn briodol gan:
  - ddatblygu llawysgrifen ddarllenadwy, yn unol â chonfensiwn
  - defnyddio dulliau cyflwyno a gosod pwrpasol, gan gynnwys TGCh.

#### Ystod


#### Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
  - difyrru
  - cyflwyno gwybodaeth
  - mynegi barn
  - cyfleu teimladau a syniadau
2. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygus, e.e. yr hunan, cyd-ddisgyblion, disgyblion iau, athrawon, teulu a ffrindiau

3. ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. stori, cerdd, sgript, taflen, poster, hysbyseb, adroddiad, dyddiadur, nodiadau, testun electronig, portread, cyfarwyddiadau, holiadur, adolygiad, erthygl, araith

4. ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, e.e. stori, cerdd, eu diddordebau, eu gweithgareddau a'u profiadau yn y dosbarth a thu hwnt, rhaglen deledu, cerflun. 

# Dyddiaduron



Enghreifftiau o Ddyddiaduron (Ffuglen i Blant)

Cyfres Fy Hanes I :-

Yr Arwisgo - Dyddiadur Sara Harris (Cyfnod chwedegau'r ganrif ddiwethaf)

Gwas y Stabl - Dyddiadur Sion Dafydd, Plas Creuddyn (Cyfnod 1582—1593)


Merch y Felin - Dyddiadur Eliza Helstead, Manceinion (Cyfnod 1842—1843)

Mordaith ar y Titanic - Dyddiadur Margaret Anne Brady (Cyfnod 1912)

Y Newyn - Dyddiadur Phyllis McCormack (Cyfnod 1845 - 1847)

Streic - Dyddiadur Ifan Evans, Llwybrmain, Bethesda, (Cyfnod 1899 - 1903)

Y Blits - Dyddiadur Edie Benson, Llundain (Cyfnod 1940 - 1941)



Llio! Y Dyddiadur Bach

Dyddiadur Dadlennol Caryl Ann Parri



# Prif Nodweddion Dyddiadur

Prif bwrpas cadw dyddiadur yw i gofnodi digwyddiadau personol, yn nhrefn amser gan nodi'r dyddiadau.



- dyddiadau sydd yn dangos treigl amser
- cofnod o ddigwyddiadau yn yr amser gorffennol
- cofnod o deimladau/meddyliau personol yn yr amser presennol
- yn y person cyntaf
- digwyddiadau yn nhrefn amser
- iaith sgysiol (yn debyg i'r iaith lafar)


e.e. ffurf fer geiriau - mae'n, rwy'n, dw i ddim;

cwestiynau, ebychiadau - Beth sy'n mynd i ddigwydd? Mae mor annheg!;

sylwadau mewn priflythrennau / cromfachau:

geiriau sgysiol - O Well! Sdim ots.

- iaith fywiog e.e. berfau pwerus, ansoddeiriau, adferfau.




**Detholiad o'r llyfr *Fy Hanes I - Merch y Felin*  
Dyddiadur Eliza Helsted, Manceinion, 1842 - 1843  
*Addasiad Meinir Wyn Edwards***

Darllenwch y detholiad ac yna defnyddiwch y lle gwag ar y dde i nodi'r prif nodweddion a welir yma.

**Dydd Iau, Ebrill 28, 1842**

Fy niwrnod olaf yn yr ysgol. Fe es i dan lusgo 'nhraed. Dwi erioed wedi cerdded yno mor araf. Tynnodd Emmy fy llaw i geisio fy nghyflymu. Fe allwn i synhwyro ei bod hi'n ysu am gael dweud wrth ei ffrindiau mai dyma ei diwrnod olaf *hi*. Dwi erioed wedi ei gweld hi mor awyddus.


Ar ôl cyrraedd yno rhedodd Emmy i mewn yn syth ond arhosais i tu allan am ychydig. Syllais am amser ar y waliau brics coch - roedden nhw'n ddu gan fwg, yn union fel pob adeilad arall yn Ancoats. Ro'n i'n teimlo fel pe bai gât fawr yn cael ei chau yn fy wyneb.



Roedd y gwersi wedi dechrau erbyn i fi sleifio i mewn a mynd i eistedd yn fy hen le ar y fainc flaen. Wrth i fi eistedd i lawr, sylwais cyn lleied o ddisgyblion oedd o 'nghwmpas i. Gwnes farc caled ar fy llechen ac fe dorrodd y sialc yn ddarnau mân. Gadewais y darnau yno ar y llawr ac edrych allan drwy'r ffenest. Dwi ddim yn credu 'mod i wedi gwranddo dim drwy'r bore. Ar ôl i'r gwersi orffen fe es i at Miss Croom, rhoi'r arian oedd arnon ni iddi a chyhoeddi na fydden ni'n dod 'nôl. Aeth fy wyneb yn goch ac yn boeth. "O, Eliza," meddai. "Mae cymaint o'm disgyblion gorau wedi gorfod gadael yr ysgol; does dim rhaid i ti deimlo cywilydd."

Ond ro'n i'n teimlo cywilydd. Allwn i ddim gwranddo rhagor. Gafaelais yn llaw Emmy a'i thynnu o'i sedd. Wnes i mo'i gadael hi'n rhydd nes ein bod ni wedi mynd allan o'r adeilad, er i Emmy sgrechian 'mod i'n ei brifo hi. Edrychais i ddim 'nôl. Ddim unwaith.

Cefais gerydd gan mam pan welodd hi wyneb Emmy wedi chwyddo gan ddagrau, ac yna llifodd yr holl ddagrau ro'n i wedi bod yn eu dal 'nôl. Pam mae hi'n ochri gydag Emmy bob tro? Pam dyw hi byth yn deall sut ydw i'n teimlo? Ac wrth i mi gofio pa mor hy oeddwn i wrth Miss Croom, teimlais hyd yn oed yn waeth. Nid ei bai hi yw fy mod i'n gorfod gadael yr ysgol, nage? Teimlo cywilydd mawr.



## Detholiad o'r llyfr **Dyddiadur Dadlennol Caryl Ann Parri** *Michaela Morgan*

Darllenwch y detholiad ac yna defnyddiwch y lle gwag ar y dde i nodi'r prif nodweddion a welir yma.

### 31ain Ionawr

Rwy wedi edrych yn ôl drwy fy nyddiadur i fwrw golwg dros fy addunedau. Mae rhai yn edrych yn llai synhwyrol nawr. Rwy wedi penderfynu y *dylwn* i fwyta siocled wedi'r cyfan. Mae hyn nid yn *unig* am fy mod wedi anghofio fy adduned ac wedi bwyta cryn dipyn o siocled - mae hefyd yn fater o gare-digrwydd.

Cefais focs o siocledi amrywiol gan fodryb, welwch chi, a byddwn wedi bod yn anniolchgar petawn i heb eu bwyta i gyd wedi i'r fodryb fynd i'r drafferth o'i brynu i fi. Yna roedd yr addurniadau Nadolig. Cawsom gnwd helaeth eleni - ceirw siocled, Siôn Corn siocled, dynion eira siocled, angylion siocled. I ddechrau rown i'n meddwl y gallwn gnoi cornel adain angel - neu ddwy - ond wedyn meddyliais mor ofnadwy y byddai petai fy mrawd Hadog yn cael cyfle i fwyta fy rhan i.

Fodd bynnag rwy'n SICRHAU fy mod yn bwyta ffrwythau (sy'n dda iawn i chi ac ANGENRHEIDIOL ar gyfer DEIET CYTBWYS) hefyd. Rwy newydd fwyta losin blas banana a blas gellyg - mae'n rhaid eu bod yn cyfrif fel ffrwythau!



POSTER


GLENYS X LLOYD

**RHYFEL SAM**

CYPRUS CORRYN

[illegible]

Mae Caryl wedi cael dyddiadur yn anrheg Nadolig. Ar yr 2ail o Ionawr, mae hi'n cofnodi ei haddunedau Blwyddyn Newydd. Ewch ati i'w rhestru.




This image shows a single sheet of white paper with horizontal ruling lines. The lines are evenly spaced and run across the width of the page. There is no text or other markings on the paper.









[illegible]



# Dyddiadur

[illegible]

This image shows a full page of a notebook or ledger. It features a thick black border with a repeating white knotwork pattern. Inside the border are horizontal ruling lines. The first line at the top is slightly thicker than the others, serving as a header line. There are 10 such header lines spaced evenly down the page. Between each header line are two more standard ruling lines, creating a series of rows for writing. The entire page is otherwise blank, with no text or markings.

DYDDIADUR

A decorative rectangular frame with a black border and a white Celtic knot pattern. Inside the frame is a white rectangular area with ten horizontal lines for writing.

A decorative rectangular frame with a black border and a white Celtic knot pattern. Inside the frame is a white rectangular area with ten horizontal lines for writing.

# ysgrifennu Dyddiadur

## Taflen Gymorth

### Amser

Am hanner awr wedi tri

Pan aeth y larwm

Erbyn ...

Cyn cinio

Ar ôl ...

Amser bwyd

Wedyn ...

Yna ...

Wedi hynny ...

Yn gynnar yn y bore ...

Yn y prynhawn ...

Yn y nos ...

Ffurf orffennol y ferf

Es i

Bues i

Gwelais i

Cysgais

Cyrhaeddais

Dihunais

Cyrhaeddwn ni

Aethon ni

### Geiriau sy'n sôn am ein TEIMLADAU

yn hapus

yn drist

yn ofnus

yn gyffrous

yn flinedig

yn grac

yn casau

yn poeni

yn sâl

yn gynhyrfus

yn ddiflas

yn bryderus



# Dyddiadur

Hunanasesu



|                                         |  |
|-----------------------------------------|--|
| Ydych chi wedi nodi dyddiad?            |  |
| Oes cofnod o ddigwyddiadau?             |  |
| Ydy'r digwyddiadau yn nhrefn amser?     |  |
| Ydy amser y ferf yn gywir?              |  |
| Oes cofnod o deimladau?                 |  |
| Ydych chi wedi defnyddio iaith sgysiol? |  |

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn :



# Dyddiadur

Hunanasesu



|                                                                                 |  |
|---------------------------------------------------------------------------------|--|
| Ydych chi wedi nodi dyddiad/ dyddiadau?                                         |  |
| Oes cofnod o ddigwyddiadau?                                                     |  |
| Ydy'r digwyddiadau yn nhrefn amser?                                             |  |
| Ydy amser y ferf yn gywir?                                                      |  |
| Oes cofnod o deimladau / meddyliau?                                             |  |
| Ydych chi wedi defnyddio iaith sgysiol?                                         |  |
| Ydych chi wedi gwneud defnydd da o iaith—berfau pwerus, ansoddeiriau, adferfau? |  |

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn :



# Dyddiadur

Hunanasesu



|                                                                                                                               |  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|
| Ydych chi wedi nodi dyddiad/ dyddiadau?                                                                                       |  |
| Oes cofnod o ddigwyddiadau cyffrous?                                                                                          |  |
| Ydy'r digwyddiadau yn nhrefn amser?                                                                                           |  |
| Ydy amser y ferf yn gywir?                                                                                                    |  |
| Oes cofnod o deimladau / meddyliau / gobeithion?                                                                              |  |
| Ydych chi wedi defnyddio amrywiaeth o iaith sgysiol gan gynnwys cwestiynau, ebychiadau a sylwadau ychwanegol mewn cromfachau? |  |
| Ydych chi wedi gwneud defnydd da o iaith—berfau pwerus, ansoddeiriau, adferfau?                                               |  |

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn :